CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION PWYLLGOR CYFFREDINOL MEHEFIN 19 2007

Presennol
Ei Theilyngdod Y Maer – Cyng M P Jones

Cynghorwyr

R M Jones, I C Thomas, W T Owen, R Anderson, H Edwards, H Gwyn, A Bohana, A Kirk, A Y Williams, M E Williams,T Thomas

Siaradwr Gwadd : Arolygydd Gareth Roberts + PCSO's
Croesawodd y Maer swyddogion o'r Heddlu i'r cyfarfod

Eglurodd Arolygydd Gareth Roberts bod y Dref wedi colli 2 CBM ond wedi cael 4 PCSO yn eu lle

Cyflwynwyd y tîm fesul un
Steve Williams sydd hefo 3 PCSO yn gweithio iddo sef
Geraint Williams(Ward Menai a pubwatch), Emily Quaeck(Ward Menai a shopwatch) a Joanna Clark(Ward Menai)
Ian Roberts sydd hefo 3 arall yn gweithio iddo sef
Dylan Pritchard(Ward Peblig),Catrin Jones Morris(Ward Seiont) a Zara Thomas(ward Cadnant)

Prif pwyntiau o'r sgwrs olynol oedd:

- Bod y Cynghorwyr i gyd yn falch iawn o'r gwaith pwysig sydd yn cael eu wneud gan yr unigolion yma
- Eglurwyd ychydig am system cerdyn melyn sydd yn cael ei ddefnyddio i geisio lleihau troseddwyr ifanc.

  Trosedd cynta- cerdyn melyn

  Ail – llythyr yn mynd adref a chosb pellach
- "Pubwatch" a "shopwatch" yn effeithiol iawn, efallai bod angen ychydig mwy o ddiddordeb lleol yn y system "shopwatch"
- Rota gweithio'r heddlu ar fin newid er mwyn ceisio cael mwy o bresenoldeb dydd a nos
- Derbyn bod problem mawr o yfed dan oed yn y dre, er bod yr heddlu wedi dal nifer ac wedi cymryd gafael ar swm helaeth o ddiodydd
- Angen i fwy o bobl gysylltu a'r Heddlu os ydynt yn gweld unrhyw drosedd- cydweithio agos

1. **Ymddiheuriadau**

Cyng. O T Owen, Cyng. G Parry, Cyng. W R Owen, Cyng H W Roberts
Cydymdeimlwyd yn ddwys a Cynghorydd O T Owen a'r Clerc ar profedigaethau teuluol – safodd pawb am funud fel arwydd o barch

2. **Datgan Buddiant Personol**

A Y Williams – eitem 8ii- Diwrnod Feteraniaid
H Edwards – eitem 4 –Cynllunio
R M Jones – eitem 4 – Cynllunio
I C Thomas – eitem 4 (1,2 & 13) gadawodd yr ystafell) - cynllunio

3. **Eitemau brys**

Datblygiad y maes- 15

4. **Ceisiadau Cynllunio**

Penderfynwyd

I anfon rhestr argymhellion i'r awdurdod cynllunio priodol (gweler atodiad)

5. **Cyfrifon**

I gymeradwyo biliau a dalwyd

Penderfynwyd

I dderbyn a'u talu

6. **Llythyr o Ddiolch**

Childline

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth

7. Unllais Cymru

i. Cyfarfod Blynyddol 12fed Gorffennaf 2007
ii. Dilynir gyda sesiwn hyfforddiant cynllunio (angen 3 problem cynllunio) – dewch a'ch pryderon i'n cyfarfod ni er mwyn dewis 3
iii. Cofnodion
iv. Bwletin Arfon Mai 07

Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth, cynrychiolwyr arferol i fynychu

8. Cyngor Gwynedd

i. Rhaglen waith – Cyfadran yr Amgylchedd
ii. Cau ffyrdd dros dro

Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

9. Lon Osgoi Bontnewydd

Llythyr Cyngor Cymuned Bontnewydd

Penderfynwyd
Anfon llythyr i Gyngor Cymuned Bontnewydd i nodi yr awgrymiadau yma:-
Ymchwilio i bosibilrwydd system "Park & Ride"
Gofyn i weithwyr Cyngor Gwynedd ail ystyried trafnidiaeth i'w gwaith e.e rhannu ceir
Gan bod stad ddiwydiannol Cibyn yn prysuro ceisio cael y lon osgoi ynghynt er mwyn hwyluso'r trafnidiaeth (blaenoriaeth o Plas Menai)
Gwella cyflwr Bont Pontrug

10.Panelau Cymdogaeth yr Heddlu

Cyfarfod – Blaenau Ffestiniog 19 Gorffennaf

Penderfynwyd
H Edwards, M P Jones a A Bohana i fynychu fel arfer

11.Cynllun Gwella Tramwy

Eitem wedi symud o'r Cyngor Mehefin

Penderfynwyd

Pawb i cwblhau ac anfon holiadur i'r clerc erbyn diwedd mis Mehefin

12.Is Bwyllgor Adloniant

Trafod dyfodol y pwyllgor

Penderfynwyd

I gadw'r pwyllgor, ond iddynt benderfynny rhaglen flynyddol cyn i'r amcan gyfrifon gael eu creu bob blwyddyn(tachwedd) er mwyn hwyluso costau.

Mi fydd y canlynol yn perthyn i'r pwyllgor
W T Owen, R M Jones, M P Jones, R Anderson, H W Roberts, A Kirk, T Thomas, A Bohana, H Gwyn, I C Thomas.
Nodwyd hefyd bod rhaid i'r pwyllgor fod yn fwy ymarferol

13. E-bost John Thirsk

Par: Cefnogaeth i'r 'Land Train'

Penderfynwyd

Nad oedd digon o wybodaeth i gefnogi'r cais gan nad ydym yn arbenigwyr mewn "approved transport systems".

Clerc i anfon llythyr sydd yn nodi bod y Cyngor yn gefnogol o'r syniad ond teimli'r mae yn Partneriaeth Caernarfon y dylid ei drafod gyntaf er mwyn cael mwy o wybodaeth

14. Cwestiynau

Ydi'n bosibl estyn gwahoddiad i enillwyr y twrnament peldroed i gyfarfod y Maer yn swyddogol?
Y Maer i drefnu
(Cyng H Edwards a Cyng R M Jones yn gadael)
Beth sydd yn digwydd Diwrnod Y Feteraniaid
Rhoddodd Cyng. A Y Williams ateb llawn, copi o'r trefniadau ar gael gan y clerc

15 Cynllun Y Maes

Cofnodion o gyfarfod

Nodwyd pryderon oedd wedi codi yn y cyfarfod yn Cyngor Gwynedd ac yna mewn cyfarfod busnesi'r dre oedd wedi ei gynnal yn Cofi Roc

Sef:-
Pryder bod y cynllun ar un lefel a dim ffordd o greu diogelwch i gerddwyr
Dim digon o le i barcio i fynd i siop/banc am 5 munud
Angen ystyried safle tacsis- Terminal i feics, bysus a tacsis i gyd mewn un man
Adrannau Cyngor Gwynedd angen cydweithio'n agosach
Angen hyblygrwydd- os nad ydi'r cynllun yn gweithio ella fydd angen newidiadau
Farchnad yn flêr ar hyn o bryd- rhaid sicrhau gwelliant a dim faniau ar y maes ar ôl y gwaith. Darpariaeth fel y Farchnad Ffrenig

Gorffennodd y cyfarfod am 8.25

Arwyddwyd..... Dyddiad.....